Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 5:
Pwy sydd orau am?

Amcan dysgu

- Annog disgyblion i ddatblygu sgiliau penderfynu.
- Annog disgyblion i feithrin dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau menter.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd

- Cystadleugarwch

Trefniadaeth

- Penderfynu

Cysylltiadau

- Gweithio gydag eraill
- Trafod, darbwyllo a dylanwadu
- Cyflwyno
- Cyfathrebu

Gweithgareddu dysgu

Gofynnwch i'r disgyblion drafod a rhestru'r amrywiaeth o 'swyddi' sydd angen eu dyrannu i unigolion (neu grwpiau) ar gyfer y prosiect menter. Er enghraifft, cyfrifo'r arian, cynhyrchu pethau, a siarad gyda'r cwsmeriaid am y cynnyrch. Defnyddio **Adnodd 5 – cardiau geiriau allweddol Menter** i alluogi'r disgyblion i drafod a deall ystyr termau a rolau allweddol menter.

Gall y disgyblion ychwanegu enw'r rôl i'w rhestr "Rydym angen rhywun i wneud poster felly hysbysebu yw hynny" Trafodwch gyda'r disgyblion pa feini prawf y gallent eu defnyddio i ddyrannu'r 'swyddi' e.e

- *"Oes gennych y sgiliau priodol i wneud y swydd yna?"*
- *"Pwy sydd orau am…?"*
- *"Pwy fuasai'n hoffi gwirfoddoli am y swydd yna?"*

Gan ddefnyddio'r rhestr o swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob tasg, gofynnwch i'r disgyblion drafod pa mor dda yn eu tyb hwy y buasent yn cyflawni'r gwaith. Cytunwch ar yr unigolion (neu grwpiau) sydd i ymgymryd â phob rôl. Gellir annog disgyblion i sefyll ar gyfer eu 'hethol' a rhoi cyflwyniad byr yn egluro sut y buasent yn gwneud y gwaith yn dda gan roi enghraifft o'r adeg yr oeddent wedi dangos y sgil angenrheidiol.

Cofnodwch y "penodiadau" llwyddiannus neu fel arall gadewch i bawb wneud y gwahanol dasgau yn eu tro fel bod pob un yn cael y cyfle i ddatblygu sgil newydd. Pwysleisiwch fod rolau yn newid o fewn busnes fel nad oes unrhyw un yn gaeth i un swydd nad ydynt yn hapus ynddi.

Gweithgaredd 5:
Pwy sydd orau am?

Cynradd Uwch

Canlyniadau dysgu

Bydd y disgyblion yn:

- datblygu eu sgiliau penderfynu
- datblygu eu dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau menter
- adnabod y sgiliau mae eu hangen i gyflawni rolau'r fenter a chymryd cyfrifoldeb.

Adnoddau y mae eu hangen

- Adnodd 5 – Cardiau geiriau allweddol Menter
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando am ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government